

CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Ionawr 8, 2019 yn y Llyfrgell Rhydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Delwyn Evans – Maer
Cynghorwyr Ray Stubbs; Bob Gunton; Dyfrig Siencyn; John Raghoobar;
John Cadwaladr; Nia Williams; Branwen Rhys Dafydd; Heilyn Williams;
Ywain Myfyr; Siôn Edwards

Mr Rhys Williams – Clerc

HEFYD YN BRESENNOL: 1 x aelod o'r Wasg

C65.2018/2019 YMDDIHEURIADAU
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Jo Checkley; Linda Morgan a Marian Harrison

C66.2018/2019 DATGANIADAU O DDIDDORDEB PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD
Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

Enw	Cofnod	Rheswm
Cyng. Heilyn Williams	NP5/57/LB445C	Yn byw cyfagos a'r safle

C67.2018/2019 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR RAGFYR 4, 2018

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod. Rhoddwyd yr hawl i'r Clerc ychwanegu colofn ychwanegol i'r rhestr taliadau er mwyn cofnodi manylion deddfau / pwerau penodol sy'n galluogi gwariant ar gyfer wahanol wasanaethau / pwrpasau. Hyn ei angen yn deillio o'r Archwiliad Allanol ar gyfer 2017/2018.

C68.2018/2019 MATERION YN CODI O'R COFNODION

- C60.2018/2019.1 Wefan y Cyngor**
Cyflwynwyd: Gohebiaeth oddi wrth cwmni ICT Vision yn holi a yw'r Cyngor eisiau'r wefan ddilyn protocol 'operation London Bridge' ar farwolaeth y Frenhines yn y dyfodol.
Penderfynwyd: I ddilyn y protocol yma.
- C60.2018/2019.2 Coed Ffynnon Fair**
Cyflwynwyd: Drafft gan y Clerc o eirfa priodol ar gyfer sefydlu arwyddion priodol i rybuddio unigolion rhag torri coed yn y safle heb ganiatâd y Cyngor.
Penderfynwyd: Mabwysiadu'r geirfa ac i sefydlu arwyddion ar y safle.
- C .2018/2019 Trychineb Llyn Penmaen 1966**
Cyflwynwyd: Diweddariad gan y Clerc ei fod wedi derbyn adborth cadarnhaol oddi wrth un teulu parthed cywirdeb enwau'r unigolion a chollwyd eu bywyd. Mae dal angen cadarnhad o oedran un plentyn.
Penderfynwyd: Dilyn fynny y wybodaeth ynglŷn ag oedran y plentyn yma drwy'r gwasanaeth cofrestru genedigaethau a marwolaethau.
- C62.2018/2019.1 Sefydlu cyfyngiad cyflymdra o 20 m.y.a. ger safleoedd addysg ac ardaloedd eraill yn y dref**
Cytunodd y Cyng. Dyfrig Sencyn i ddilyn i fynny ar y mater uchod.

C69.2018/2019 TRAFODAETH PARTHED DARPARIAETH BRESENNOL TELEDU CYLCH CYFYNG / ANGHENION YCHWANEGOL

Cyflwynwyd: Adroddiad llafar oddi wrth y Cyngorydd Heilyn Williams ar y ddarpariaeth bresennol o'r offer yma ynghyd a sawl cynllun i ymestyn neu i adnewyddu offer mewn lleoliadau i'r dyfodol. Mae'r ddarpariaeth yma yn ffocysu ar ganol y dref. Mae ychydig o dan £1,000 yn y gronfa ar hyn o bryd sy'n cael ei warantu drwy Partneriaeth Dolgellau.

Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth gyda diolch ac i drefnu ymweliad i Gyngor Tref Bermo i drafod eu profiad a threfniadau ynglŷn â:

- Teledu Cylch Cyfyng
- Darpariaeth Goleuadau Nadolig
- Trefniadau codi tâl ar fesydd parcio

C70.2018/2019 SEFYLLFA ARIANNOL

Derbyniwyd y sefyllfa ariannol gan y Clerc a chadarnhawyd y taliadau canlynol:

Dyddiad	Rhif Siec	Enw	Disgrifiad	Swm £
31.12.2018	103814	R.J. Electrics	Goleuadau Nadolig	824.80
02.01.2019	103815	Cambrian News Ltd	Hysbyseb Nadolig 2018	90.00
02.01.2019	103816	Wendy Owen	Cyfieithu Rhagfyr 2018	127.06
02.01.2019	103817	Rhys Williams	Cyflog Ionawr 2019 ac ad daliad stampiau	317.88
03.01.2019	103818	Inland Revenue	PAYE Rhagfyr 2018	69.20

Cytunwyd hefyd i gynnal cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cyllid ar nos Fawrth, Ionawr 29, 2019 yn y Llyfrgell Rydd am 6.30 p.m.

C62.2018/2019 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU

1. Adroddiadau Cyngorwyr Tref

a) Y Maer

4/12/18 Cyngor Tref

7/12/18 Noson Siopau Hwyr - noson lwyddiannus dros ben a llongyfarchiadau i'r trefnwyr - un nam bach - lle oedd y goleuadau?

14/12/18 Parti Nadolig Clwb yr Henoed

17/12/18 Angladd dwy ferch o'r dref a oedd yn gweithio gyda'i a gilydd yn Ysbyty Dolgellau - gwyn eich byd y ddwy ohonoch.

Un yn Eglwys Santes Fair a'r llall yng Nghapel Tabernacl Dolgellau

18/12/18 Parti Nadolig Abbeyfield – mins peis a charolau

19/12/18 Parti Nadolig Grŵp Crefft Dolgellau

20/12/18 Tê yng Nghefn Rodyn - canu a tê Nadolig

24/12/18 Ysbyty Dolgellau

Cwynion mis Rhagfyr 2018

Lle mae goleuadau Nadolig y dref?

Lle mae goleuadau llynedd?

Dolgellau yn mynd yn waeth pob blwyddyn o ran goleuadau Nadolig.

Dynion Ambiwllans yn gorfod cludo cleifion dros ben wal i'r

hofrennydd

Ymddiriedolaeth y Marian

Lle mae CCTV yn Nolgellau - diolch i Heilyn am roi camera newydd i fyny dros y Nadolig

Salwch ar y strydoedd ers cyn Nadolig wrth Llyfrgell Rhydd, Stryd Plas yn dre.

Poenus clywed fod cartref Abbeyfield yn cau yn ystod y flwyddyn 2019.

b) **Y Cynghorydd Branwen Rhys Dafydd** - canmoliaeth ynghylch a digwyddiad noson Siopa Hwyr.

c) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr** - canmoliaeth ynghylch a digwyddiad noson Siopa Hwyr. Pryder ynglŷn â threfn a "fformat" 'Dolgellau Disglair' ar hyn o bryd. Cyfarfodydd o Grŵp Treftadaeth y diwydiant gwlan nawr ar y gweill.

Penderfynwyd: Sefydlu Is-bwyllgor Goleuadau Nadolig o'r Cyngor i ystyried darpariaeth a threfniadau goleuadau Nadolig i'r dyfodol. Pawb sy'n medru mynychu'r cyfarfod cyntaf (i'w drefnu) i fod yn bresennol

ch) **Y Cynghorydd Siôn Edwards** - adborth ar lwyddiannau lleol diweddar

d) **Y Cynghorydd Bob Gunton** - adborth ar waith gyda'r wefan. Am gyfarfod a Llinos Rowlands yn fuan i drafod dulliau i ychwanegu cysylltiadau wefan y Cyngor i safleoedd we sefydliadau eraill.

dd) **Y Cynghorydd Ray Stubbs** – adborth ar waith Parc y dref. Cyfarfodydd gyda CNC parthed y wal yn parhau. Cais am gyfraniad ariannol o'r Cyngor ar ei ffordd.

e) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** - adborth ar waith y Clwb Rotari dros y Nadolig. £300 wedi ei gyfrannu tuag at Uned Meirion.

2. **Adroddiadau Cynghorwyr Gwynedd Lleol**

a) **Y Cynghorydd Linda Morgan**

6/12/18

Cyfarfod yng Nghaernarfon
Noson Siopau Hwyr Abermaw - Band Zumba, Plant yn canu, siopau wedi eu haddurno, Chris Knowles, Telynor Celtaidd ac yn gallu chwarae sawl offeryn, chwarae ei delyn yn un o'r siopau. Canu carolau yn y "Last Inn", staff Bad Achub a Gwasanaeth Tân ar y stryd a.y.b., wedi ei drefnu yn dda. Roedd y goleuadau Nadolig yn wych.

10/12/18

Gwahoddiad i dynnu raffl yn Ysbyty Dolgellau ar gyfer Mr Mike Triggs, roedd wedi codi £400 tuag at Gancr Prostate. Hwn oedd y 43 rug iddo wneud i wahanol elusennau dros y blynyddoedd.

- 12/12/18 Gwasanaeth Carolau yn Ysbyty Dolgellau gyda Phwyllgor Ffrindiau'r Ysbyty a Chynghorydd Anwen Hughes, Cadeirydd Cyngor Gwynedd. Dosbarthu cardiau Nadolig i'r cleifion a staff yn yr Ysbyty. Arweiniwyd y digwyddiad gan y Parch Patrick Slattery. Rydym yn ffodus iawn i gael ysbyty mor dda gyda staff ymroddedig tuag at gleifion, mor ffeind ac ystyrion trwy'r amser.
- 13/12/18 Bore coffi Gwasanaeth Ambiwllans Awyr yng Ngwesty'r Llong. Roedd hyn i godi ymwybyddiaeth am wirfoddoli i'r Gwasanaeth Ambiwllans Awyr yng Nghymru.
- 17/12/18 Mynychu angladd Megan Parry yn y dref. Parhau i osod bagiau baw cwn mewn amryw safle er mwyn i bobl helpu eu hunain. Mynd yn dda, ond problem baw cwn yn parhau. Angen dilyn fyny hefo CCG a Threfi Taclus. Rhof adroddiad yn y cyfarfod nesaf.
- 18/12/18 Mynychu angladd Mrs Anderson yn y dref. Ymweliad i Abbeyfield i ymuno mewn canu carolau a mins peis gyda staff, pwyllgor preswylwyr a.y.b. Canu carolau yn "Cross Keys" er budd amryw o elusennau.
- 19/12/18 Ymweld sawl siop i hybu busnesau bach yn enwedig dros cyfnod y Nadolig. Ymweld Cefn Rodyn gyda Cynghorydd Anwen Hughes a Peredur Jenkins. Cartref Preswyl gwych yn y dref, preswylwyr yn hapus iawn, llawer o weithgareddau.
- 21/12/18 Ymweld yr ysbyty, Abbeyfield a Cefn Rodyn gyda Liz Saville Roberts AS a Cynghorydd Dyfrig Siencyn. Ymweld Lleiandy Carlmalite i rannu cardiau Nadolig i'r chwiorydd. Twtio bocsys blodau yn y dref a glanhau'r bocsys pren. Delio gydag amryw o bryderon yn y dref, mi wnâ ddilyn fynnu gydag adroddiad ar rhain yn y cyfarfod nesaf, ynglŷn â thai, coed, sbwriel a.y.b.

Delio gyda cwestiwn parthed baw cwn yn Penycaeau. Dosbarthu pamffledi a bagiau.

Delio gyda cais am binau newydd, mi fyddant yn cael eu gosod unrhyw ddiwrnod. Maent yn edrych yn dda, ac fel y dywedais o'r blaen maent i fwy nag un pwrpas. Byddaf yn cyfarfod gyda Peter Simpons, Rheolwr Gwasanaethau a Gorfodaeth Stryd pan fyddant yn cyrraedd. Newyddion Da.

b) Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

Mae ymgynghoriad bellach ar y gweill ar sut i lenwi'r bwloch ariannol o £6m ar gyfer 2019-2020. Posibilrwydd y bydd y Treth Cyngor yn cynyddu +5%.

Cafwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda Gweinidog yr Economi yn Llywodraeth Cymru, pryd derbyniwyd cadarnhad y bydd y

Cynulliad yn matchio'r arian a dderbyniwyd o San Steffan ar gyfer Cynllun Twf yr economi ar gyfer Gogledd Cymru

Derbyniwyd yr adroddiadau gyda diolch.

C72.2018/2019 GOHEBIAETH

Derbyniwyd yr ohebiaeth canlynol er gwybodaeth.

1. Cyngor Gwynedd – ymgynghoriad ar Bolisi Gosod Tai
2. Cyngor Gwynedd – gwaith i drosglwyddo Canolfannau Hamdden i gwmni dan ofal Cyngor Gwynedd.
3. Heddlu Gogledd Cymru - 'chwifio'r faner yn erbyn twyll'
4. Cylch yr Iaith – gwrthwynebiadau i ail strwythuro Canolfannau Iaith y Sir.
5. Gwasanaeth Priffyrdd – rhaglen waith Ardal Dolgellau – Ionawr 2019.

C73.2018/2019 MATERION CYNLLUNIO

NP5/57/CAL775C – CANIATAD ADEILAD GADWRAETH I DDYMCHWEL SIMDDE CANOLIG I'R GRIP OHERWYDD EI GYFLWR AC NAD OES DEFNYDD IDDO RHAGOR GAN ORCHUDDIO EI OL A LLECHI A THEILS CYFFELYB A RHAI PRESENNOL DYLANWAD DA RESTAURANT, FFOS Y FELIN, DOLGELLAU. LL40 1BS – **Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais ar sail y bydd yn gwarchod cyflwr yr adeilad i'r tymor hir**

NP5/57/515A – ADEILADU 'PORTAKABIN FEL CYFLEUSTER LLES A GWAITH TRIN DWR GWASTRAFF FFORDD PONT YR ARRAN, DOLGELLAU. LL40 2AA– **Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais ar y sail Y bod angen y fath gyfleusterau ar y safle**

NP5/57/960B – CODI FFENS 2.4M O GWMPAS CAE PELDROED TIM CYNTAF, CAE PELDROED MARIAN MAWR, DOLGELLAU. – **Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais ar sail y bydd yn gwella cyfleusterau a diogelwch yn gyffredinol yn yr ardal yma. Nodwch mae Cyngor Tref Dolgellau yw perchennog y tir dan sylw. Trafodwyd y mater gyda'r Clwb Peldroed cyn iddynt gyflwyno'r cais yma a chytunwyd yn y cyfarfdd hynny I gefnogi ymdrechion y Clwb ar y mater yma.**